Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P-RE-2280-19

Llŷr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru

19 Gorffennaf 2019

Annwyl Llŷr,

O ran y Datganiad o Egwyddorion newydd y cytunwyd rhwng y Pwyllgor Cyllid a'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol, cytunais i ysgrifennu atoch cyn toriad yr haf gyda nifer o ffactorau er mwyn helpu i gynllunio ymlaen.

Law yn llaw â hyn, ac er mwyn rhoi cymaint o dryloywder i'n rhanddeiliaid am y rhagolygon economaidd a chyllidol ar gyfer Cymru, cawsom y cyfle yn y siambr yr wythnos hon i ystyried 'Rhagolygon y Dyfodol ar gyfer Gwariant Cyhoeddus yng Nghymru'. Yn fy natganiad, rhoddais ein hasesiad gorau posibl o lefel gyffredinol yr arian sydd ar gael yn y dyfodol, ynghyd â ffactorau eraill megis yr effaith debygol ar y bil cyflogau a rhagolygon trethi datganoledig. Rwy'n atodi copi o'r datganiad pe baech yn dymuno anfon copi at y cyrff a ariennir yn uniongyrchol.

Wrth ddarparu'r wybodaeth hon, tynnaf sylw at ddwy agwedd yn y datganiad sy'n arbennig o berthnasol wrth lunio cynlluniau cyllidebau'r dyfodol - y rhagolygon ar gyfer ein cyllideb adnoddau yn 2020-21, a bil cyflogau'r sector cyhoeddus.

Ar y cyntaf, cyhoeddodd yr OBR ffigurau ar gyfer DEL Adnoddau'r DU (heb gynnwys dibrisiant) ochr yn ochr â Datganiad y Gwanwyn ym mis Mawrth eleni. Mae hyn yn dangos ar gyfer 2020-21 bod y ffigur 3.1% yn uwch na'r cyfanswm ar gyfer 2019-20 sydd wedi'i gynnwys gyda Phrif Amcangyfrifon Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd ym mis Mai. Fodd bynnag, ar ôl ystyried y cynnydd yng nghyllideb GIG Lloegr a gyhoeddwyd y llynedd, bydd gweddill DEL y DU yn tyfu tua 1.8% yn unig.

Mae'n bwysig nodi y byddai'r ffigur twf is hwn yn dal i orfod ymdopi ag unrhyw gynnydd i gyllidebau datganoledig y GIG. Os bydd cyllideb adnoddau Cymru hefyd yn cynyddu 3.1% yn 2020-21 a bod twf y GIG yn Lloegr yn cyfateb i Gymru, yna byddai gweddill cyllideb Cymru yn gostwng tua 1% mewn termau real rhwng 2019-20 a 2020-21.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Wrth edrych ymhellach ymlaen, mae adroddiad y Prif Economegydd a gyhoeddwyd fis Hydref diwethaf yn amlygu'r dadansoddiad a wnaed gan yr OBR sy'n awgrymu y dylai rhagdybiaeth o gyfnod hir o atal ariannol barhau i fod wrth wraidd y sefyllfa ganolog. O dan y sefyllfa is a gynhwysir yn adroddiad y Prif Economegydd, ni fyddai cyllideb Llywodraeth Cymru ond yn cyrraedd ei lefel 2010-11 erbyn diwedd y ddegawd nesaf.

Gan droi at gyflog y sector gyhoeddus, gyda chyflog y sector yn cynnwys tua 50% o wariant Llywodraeth Cymru, mae datblygiadau sy'n effeithio ar fil cyflogau'r sector yn allweddol wrth ddatblygu cynlluniau gwariant. Er bod cytundebau cyflog ar gyfer 2020-21 yn dal heb eu penderfynu ar gyfer cyfran sylweddol o weithwyr y sector, a heb ragfarnu unrhyw drafodaethau yn y dyfodol, byddai dyfarniadau cyflog diweddaraf yn awgrymu y byddai'n ddoeth i bob corff cyhoeddus fod yn cynllunio ar y sail codiad cyflog o tua 2% wrth ystyried eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Rwy'n gobeithio bod y wybodaeth yma yn ddefnyddiol.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd